# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 5ED TACHWEDD, 2019**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig - Pencadlys Caernarfon,**

**LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 28 Hydref 2019)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Jason Wayne Parry
Elfed Williams (Cadeirydd)

Edgar Owen (Eilydd)

## Aelodau Lleol

Rheilffordd Ffestiniog (Gorsaf Caernarfon)
Y Cynghorydd Cai Larsen a’r Cynghorydd Roy Owen

Sustainable Weigh
Y Cynghorydd Cai Larsen a’r Cynghorydd Roy Owen

The Sandbar Restaurant
Cynghorydd Dewi Roberts

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. 10:00AM — 6 - 8

**CAIS AM DRWYDDED EIDDO**

Rheilffordd Ffestiniog, Ffordd Santes Helen, Caernarfon, LL55 2PF

I ystyried y cais

## 5. 10:45AM — 9 - 10

**CAIS AM DRWYDDED EIDDO**

Sustainable Weigh, 13 Y Maes, Caernarfon, LL55 2NF

I ystyried y cais

## 6. 11:30AM — 11 - 15

**CAIS AM DRWYDDED EIDDO**

The Sandbar Restaurant, The Warren, Lôn Port Morgan, Abersoch LL53 7AA

I ystyried y cais

**<u>TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU</u>**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| PWYLLGOR: | IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
|---|---|
| DYDDIAD: | 5 TACHWEDD 2019 |
| TEITL: | CAIS AM DRWYDDED EIDDO - RHEILFFORDD FFESTINIOG, CAERNARFON |
| PWRPAS: | ER PENDERFYNIAD |
| AWDUR: | PENNAETH AMGYLCHEDD |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer gorsaf Rheilffordd Caernarfon, Ffestiniog a Rheilffordd Ucheldir Cymru, Ffordd Santes Helen, Caernarfon, LL55 2PF gan Rheolwr Gorsaf Caernarfon Stephen Greig. Mae'r ymgeisydd yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer adeilad aml-ddefnydd sydd yn cynnwys siop a desg ticedi ar gyfer y rheilffordd a chaffi . Nodir bydd yr adeilad gyda lle ar gyfer gweithgareddau ac arddangosfeydd ar gyfer y teithwyr.

1.2 Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol ar, ac oddi ar yr eiddo; dangos ffilmiau, a dramâu ; cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, perfformiadau dawns ac adloniant tebyg.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cais, a cytunodd yr ymgeisydd i amodau TCC cael eu gosod ar y drwydded ar gais Heddlu Gogledd Cymru.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours:** | Dydd Llun/Mon 09:00-19:00<br>Dydd Mawrth/Tue 09:00-19:00<br>Dydd Mercher/Wed 09:00-19:00<br>Dydd Iau/Thu 09:00-19:00<br>Dydd Gwener/Fri 09:00-19:00<br>Dydd Sadwrn/Sat 09:00-19:00<br>Dydd Sul/Sun 09:00-19:00 |
| **Dramau/Plays** Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors | Dydd Llun/Mon 09:00-19:00<br>Dydd Mawrth/Tue 09:00-19:00<br>Dydd Mercher/Wed 09:00-19:00<br>Dydd Iau/Thu 09:00-19:00<br>Dydd Gwener/Fri 09:00-19:00<br>Dydd Sadwrn/Sat 09:00-19:00<br>Dydd Sul/Sun 09:00-19:00 |
| **Ffilmiau/Films** Dan do/Indoors | Dydd Llun/Mon 09:00-19:00<br>Dydd Mawrth/Tue 09:00-19:00<br>Dydd Mercher/Wed 09:00-19:00<br>Dydd Iau/Thu 09:00-19:00<br>Dydd Gwener/Fri 09:00-19:00<br>Dydd Sadwrn/Sat 09:00-19:00<br>Dydd Sul/Sun 09:00-19:00 |

| | |
|---|---|
| **Cerddoriaeth Fyw** Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors | Dydd Llun/Mon 09:00-19:00<br>Dydd Mawrth/Tue 09:00-19:00<br>Dydd Mercher/Wed 09:00-19:00<br>Dydd Iau/Thu 09:00-19:00<br>Dydd Gwener/Fri 09:00-19:00<br>Dydd Sadwrn/Sat 09:00-19:00<br>Dydd Sul/Sun 09:00-19:00 |
| **Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music** Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors | Dydd Llun/Mon 09:00-19:00<br>Dydd Mawrth/Tue 09:00-19:00<br>Dydd Mercher/Wed 09:00-19:00<br>Dydd Iau/Thu 09:00-19:00<br>Dydd Gwener/Fri 09:00-19:00<br>Dydd Sadwrn/Sat 09:00-19:00<br>Dydd Sul/Sun 09:00-19:00 |
| **Perfformiadau Dawns/ Performances of Dance –** Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors | Dydd Llun/Mon 09:00-19:00<br>Dydd Mawrth/Tue 09:00-19:00<br>Dydd Mercher/Wed 09:00-19:00<br>Dydd Iau/Thu 09:00-19:00<br>Dydd Gwener/Fri 09:00-19:00<br>Dydd Sadwrn/Sat 09:00-19:00<br>Dydd Sul/Sun 09:00-19:00 |
| **Adloniant Arall/Other Entertainment** - Tu mewn/Indoors | Dydd Llun/Mon 09:00-19:00<br>Dydd Mawrth/Tue 09:00-19:00<br>Dydd Mercher/Wed 09:00-19:00<br>Dydd Iau/Thu 09:00-19:00<br>Dydd Gwener/Fri 09:00-19:00<br>Dydd Sadwrn/Sat 09:00-19:00<br>Dydd Sul/Sun 09:00-19:00 |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol** - Ar ac oddi ar yr Eiddo/On and Off Premises | Dydd Llun/Mon 09:00-19:00<br>Dydd Mawrth/Tue 09:00-19:00<br>Dydd Mercher/Wed 09:00-19:00<br>Dydd Iau/Thu 09:00-19:00<br>Dydd Gwener/Fri 09:00-19:00<br>Dydd Sadwrn/Sat 09:00-19:00<br>Dydd Sul/Sun 09:00-19:00 |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant i staff, i gynnwys cymorth cyntaf, diffibriliwr, trefn ymgiliad (tân), a pholisi her 25 gwerthiant alcohol.
- System TCC cynhwysfawr, system annerch gyhoeddus, larwm byrgleriaeth a sicrhau trefniant gyda chwmni allanol i gasglu arian parod oddi ar yr eiddo.
- Gwiriadau DBS ar rhai aelodau o staff
- Plant i fod gyda'i rhieni, gwarcheidwad ar gyfer gweithgareddau

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Sylwadau ac amodau |

### 3.2 Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru

Derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu ac yn dilyn sgwrs gyda'r ymgeisydd cytunodd i dderbyn yr amodau isod ar y drwydded:

- Lle mae cyfeiriad at amseroedd ansafonol yn Adrannau A,B,E,F,G,H, J ac L gofynnwn am i'r cymal canlynol gael ei ychwanegu – 'gyda 14 diwrnod o rybudd i'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol'.

**Adran M (b) – Atal Trosedd ac Anhrefn**

1. Bydd system TCC ddigidol yn cael ei gosod a dylai'r Heddlu a'r Awdurdod fod yn fodlon gyda sut mae'n gweithio.

2. Bydd y system TCC yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau y mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 28 diwrnod.

3. Pan fydd yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau bydd y delweddau yn cael eu rhoi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn.

4. Mae'n rhaid bod yna o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawrlwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fo'r adeilad ar agor.

5. Bydd arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i ddweud bod system TCC yn weithredol.

6. Dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel i'w harchwilio gan yr heddlu.

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo'r cais - yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r Heddlu ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **5 TACHWEDD 2019** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - SUSTAINABLE WEIGH, CAERNARFON** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Sustainable Weigh 13 Y Maes, Caernarfon, LL55 2NF gan yr ymgeisydd Daniel John Hunt. Mae'r ymgeisydd yn ceisio am drwydded eiddo ar gyfer siop fychan wedi leoli ar y Maes. Bwriedir masnachu fel siop groser sy'n arbenigo mewn cynhyrchion cynaliadwy a lleol, a ni fydd alcohol yn cael ei yfed ar yr eiddo.

1.2 Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol oddi ar yr eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cais, a cytunodd yr ymgeisydd i amodau TCC cael eu gosod ar y drwydded ar gais Heddlu Gogledd Cymru. Derbyniwyd sylwadau gan y Gwasanaeth Tân, wedi crybwyll yn rhan tri o'r adroddiad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours:** | Dydd Llun/Mon 08:30-18:30<br>Dydd Mawrth/Tue 08:30-18:30<br>Dydd Mercher/Wed 08:30-18:30<br>Dydd Iau/Thu 08:30-18:30<br>Dydd Gwener/Fri 08:30-18:30<br>Dydd Sadwrn/Sat 08:30-18:30<br>Dydd Sul/Sunday – Ar gau/Closed |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol** -<br>Oddi ar yr Eiddo/Off Premises | Dydd Llun/Mon 08:30-18:30<br>Dydd Mawrth/Tue 08:30-18:30<br>Dydd Mercher/Wed 08:30-18:30<br>Dydd Iau/Thu 08:30-18:30<br>Dydd Gwener/Fri 08:30-18:30<br>Dydd Sadwrn/Sat 08:30-18:30<br>Dydd Sul/Sunday – Ar gau/Closed |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant i staff, i gynnwys polisi her 25 gwerthiant alcohol, cofnod gwrthod gwerthiant ac adnewyddu hyfforddiant gwerthu alcohol yn flynyddol.

- System TCC yn weithredol ar yr eiddo, ac aelodau staff wedi'i hyfforddi i'w defnyddio

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Sylwadau ac amodau |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Sylwadau |

### 3.2 Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru

Derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu ac yn dilyn sgwrs gyda'r ymgeisydd cytunodd i dderbyn yr amodau isod ar y drwydded:

**Adran M (b) – Atal Trosedd ac Anhrefn**

1. Bydd system TCC ddigidol yn cael ei gosod a dylai'r Heddlu a'r Awdurdod fod yn fodlon gyda sut mae'n gweithio.

2. Bydd y system TCC yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau y mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 28 diwrnod.

3. Pan fydd yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau bydd y delweddau yn cael eu rhoi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn.

4. Mae'n rhaid bod yna o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawrlwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fo'r adeilad ar agor.

5. Bydd arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i ddweud bod system TCC yn weithredol.

6. Dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel i'w harchwilio gan yr heddlu.

- **Adran M (e) Amddiffyn Plant Rhag Niwed**

  Bydd yr eiddo yn gweithredu cynllun Her 25

### 3.3 Sylwadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Derbyniwyd sylwadau gan y Gwasanaeth Tân yn nodi nad oes gwrthwynebiad ar y sail fod y perchennog yn sicrhau fod y golau argyfwng allanfa yn gweithio, bod y system larwm tân yn weithredol a wedi wasanaethu, a bod y diffoddyddion tân wedi wasanaethu ac yn gyfoes.

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo'r cais - yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r Heddlu ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **5 TACHWEDD 2019** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDE EIDDO - THE SANDBAR RESTAURANT , ABERSOCH** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

**CAIS A DDERBYNIWYD**

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer The Sandbar Restaurant, The Warren, Lon Port Morgan Abersoch LL53 7AA gan Haulfryn Group Ltd. Mae'r eiddo yn cynnwys bwyty newydd ar gyfer darparu bwyd a diod i berchnogion anheddau'r safle a'i gwesteion. Fe weinir bwyd a diod gyda lle i 80 o gwsmeriaid tu mewn a byrddau ar gyfer 92 o bobl tu allan.

Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol odd iar ac ar yr eiddo; cerddoriaeth fyw , cerddoriaeth wedi ei recordio tu mewn a thu allan; a darpariaeth lluniaeth hwyr y nos; saith diwrnod yr wythnos.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours:** | Dydd Llun/Monday 08:00-01:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-01:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 08:00-01:00<br>Dydd Iau/Thursday 08:00-01:00<br>Dydd Gwener/Friday 08:00-02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-02:00<br>Dydd Sul/Sunday 08:00-00:00 |
| **Cerddoriaeth Fyw/Live Music** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 09:00-00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00-00:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-00:00<br>Dydd Sul/Sunday 09:00-00:00 |
| **Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 09:00-00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00-00:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-00:00<br>Dydd Sul/Sunday 09:00-00:00 |

| | |
|---|---|
| **Adloniant Arall/Other Entertainment** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 08:00-00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 08:00-00:00<br>Dydd Iau/Thursday 08:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 08:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-00:00<br>Dydd Sul/Sunday 08:00-00:00 |
| **Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 23:00-00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 23:00-00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 23:00-00:00<br>Dydd Iau/Thursday 23:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 23:00-01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-01:00<br>Dydd Sul/Sunday 23:00-00:00 |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol** - Ar ac Oddi ar yr Eiddo/On and Off Premises | Dydd Llun/Monday 10:00-00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 10:00-00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 10:00-00:00<br>Dydd Iau/Thursday 10:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 10:00-01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 10:00-01:00<br>Dydd Sul/Sunday 10:00-00:00 |

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant i staff ar ofynion y drwydded a gofynion iechyd a diogelwch
- Bwriedir gweithredu polisi 'Her 25', fel gweddill y safle
- Mae preswylwyr y parc gwyliau yn ymwybodol o reolau'r safle mewn perthynas ag ymddygiad derbyniol; a disgwylir i bawb gydymffurfio gyda'r rheolau a safonau sydd mewn lle
- Mae goruchwylwyr diogelwch ar y safle 24 awr y dydd
- Bwriedir cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng
- Sicrhau nad oes cerbydau nwyddau yn cyrraedd yr eiddo ar gyfer cyflenwi cyn 8 y bore ac ar ôl 8 y nos
- Rhaid i warchodwyr fod yn bresennol gyda phlant tra ar yr eiddo.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

**YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Sylwadau , gydag amodau |
| Cyngor Cymuned | Dim gwrthwynebiad |
| Trigolion unedau preswyl gwyliau'r safle | 7 e bost yn gwrthwynebu |
| | |

**Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru**

Mae'r ymgesiydd wedi cytuno i gynnwys amodau Teledu Cylch Cyfyng gan yr Heddlu fel a ganlyn -

**Adran M (b) – Atal Trosedd ac Anhrefn**

1. Bydd system TCC ddigidol yn cael ei gosod a dylai'r Heddlu a'r Awdurdod fod yn fodlon gyda sut mae'n gweithio.

2. Bydd y system TCC yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau y mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 28 diwrnod.

3. Pan fydd yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau bydd y delweddau yn cael eu rhoi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn.

4. Mae'n rhaid bod yna o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fo'r adeilad ar agor.

5. Bydd arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i ddweud bod system TCC yn weithredol.

6. Dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel i'w harchwilio gan yr heddlu.

**Gwrthwynebiad – trigolion a pherchnogion unedau gwyliau ar y safle**

Fe dderbyniwyd 7 e bost yn gwrthwynebu'r cais fel mae'n sefyll ar sail y pedwar amcan Trwyddedu sef

- Rhwystro trosedd ac anrhefn
- Diolgewch y cyhoedd
- Rhwystro niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

Roedd cynnwys 6 o'r saith ymateb a dderbyniwyd yr un fath , yn nodi'r un pryderon - ond gan fod y pryderon yn rhai dilys ac yn berthnasol i'r 4 amcan Trwyddedu maent wedi cael eu caniatáu fel ymatebion dilys.

Mae'r ymatebwyr yn nodi nad oedd yr ymgeisydd wedi cyfathrebu'r bwriad gyda pherchnogion unedau gwyliau ar y safle , er bod yn arferiad ganddynt i gyfathrebu yn rheoliad ar faterion eraill drwy e bost ac yn y blaen.

Mae pob ymatebydd yn nodi nad oes gwrthwynebiad i'r ymgeisydd gael trwydded; ond yn hytrach fod gwrthwynebiad i'r oriau gweithgareddau trwyddedig yn y cais.

Yn benodol ,mae sail y gwrthwynebiadau fel a ganlyn -

1. **Rhwystro Trosedd ac anrhefn**

Noder fod man droseddau ac anrhefn yn gallu bod yn broblem ar y safle; ac fe gyfleuwyd pryder y byddai caniatáu'r drwydded yn cynyddu problemau ymddygiad o'r fath ar y safle. Nododd yr ymatebwyr eu bod ar ddeall fod yr ymgeisydd yn awyddus i ganiatáu aelodau'r cyhoedd nad ydynt yn berchnogion Unedau gwyliau i ddod i'r eiddo; ac y byddai hyn yn creu sefyllfa anodd i 'w reoli gan arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn.
Nodwyd fod disgwyl i berchnogion ai gwesteion gydymffurfio gyda rheolau a safonau safle - a bod y rheolau yn nodi nad oedd neb i yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus ar y safle.

Mae pryderon yn cael eu nodi nad yw'r lefel o oruchwyliaeth staff diogelwch ar y safle yn ddigonol i sicrhau nad oes cynnydd mewn trosedd ac anrhefn yn gysylltiedig ar eiddo.

2. **Diogelwch y Cyhoedd**

Mae'r ymatebwyr yn bryderus nad oes darpariaeth parcio ddigonol ar gyfer cynnydd o ymwelwyr fydd yn dod ar y safle ; a bod hyn yn am arwain at broblemau diogelwch ar y ffordd fawr ac ar y safle ei hun.
Mae un ymatebydd yn nodi ei fod wedi dioddef ymosodiad ar eiddo trwyddedig ar y safle; ac mae'n nodi y dylid gosod amodau ar y drwydded er sicrhau diogelwch y cyhoedd.

3. **Atal Niwsans cyhoeddus**

Mae'r ymatebwyr yn cyfeirio at reolau a safonau safle; ac yn nodi fod disgwyl i berchnogion unedau gwyliau a'u gwesteion i gydymffurfio gyda'r rheolau hyn. Nodir fod yr ymgeisydd yn cyfeirio at reolau'r parc yn adran M o'r cais; fel mesur i sicrhau fod yr amcanion Trwyddedu yn cael eu cefnogi.

Mae'r ymatebwyr hefyd yn nodi fod rheolau'r parc yn disgwyl nad oes neb yn creu niwsans i breswylwyr eraill rhwng 23:00 yr hwyr a 08:00 y bore . Cyfeirir at reol 19 sydd yn gwahardd chwarae cerddoriaeth / offerynnau ar ôl 23:00 os yw'r sŵn yn glywadwy tu allan i'r carafanau/unedau gwyliau.

Credir fod hyn yn dangos anghysondeb ar ran yr ymgeisydd yn hyn o beth gan fod y cais yn gofyn am yr hawl i gerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio tu mewn a thu allan i'r eiddo tan hanner nos; saith diwrnod yr wythnos

Nodir hefyd pryderon fod yr eiddo wedi ei leoli yng nghanol y parc; ac nad yw wedi ei insiwleiddio rhag sŵn; gyda sawl uwchseinnydd wedi ei leoli yn allanol.

Credir fod oddeutu 100 o breswylfeydd a all gael eu heffeithio gan sŵn neu ymddygiad gwrth gymdeithasol o'r eiddo.

4. **Amddiffyn plant rhag niwed**

Noder fod y disgwyliad i bob plentyn fod o dan oruchwyliaeth oedolyn tra ar yr eiddo yn un an - ymarferol. Awgrymir y dylid dynodi goruchwyliwr diogelwch penodol ar gyfer yr eiddo.

Gweler manylion llawn yr ymatebion yn yr atodiad i'r adroddiad .

**ARGYMHELLIAD**

Nid yw’r awdurdod Trwyddedu yn credu fod y cais  fel mae’n sefyll yn cynnig digon o fanylion mesurau er mwyn sicrhau fod y 4 amcan Trwyddedu yn cael ei gefnogi.

Awgrymir fod yr ymgeisydd yn cynnig llawer mwy o fanylion i’r Pwyllgor; o ran y mesurau a fwriedir i dawelu pryderon yr ymatebwyr ac i sicrhau nad yw'r amcanion Trwyddedu yn cael eu tanseilio.

Argymhellir fod y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd; ac yn dod i benderfyniad yn unol  â gofynion  y  Ddeddf  Drwyddedu 2003.